



PACTO

Pembrokeshire Association of Community Transport Organisations
Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro

Cynorthwydd Prosiect Take Me Too! - Disgrifiad Swydd

Lleoliad	Gweithio gartref.
Oriau:	15–20 awr yr wythnos, dros 5 diwrnod yn ddelfrydol. Oriau gwaith i'w cytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. Bydd disgwyl i'r cynorthwydd gymryd rhan mewn rota ar alwad dros y penwythnos (gweithio gartref). Mae'n bosibl y bydd oriau ychwanegol ar gael yn achlysurol ar gyfer gwaith hyrwyddo a digwyddiadau.
Cyflog:	£9.62 / awr (Pwynt 3 pro rata ar golofn gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol) yn ogystal â lwfans wrth gefn o £30 y penwythnos ar alwad.
Rheolwr Llinell:	Cydlynnydd Prosiect Take Me Too!

Ariennir y swydd hon gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac mae'n gcontract cyfnod penodol am 6 mis i gychwyn (dros gyfnod mamolaeth), gyda'r posibilrwydd i ymestyn am 18 mis ychwanegol yn ddarostyngedig i gyllid ac anghenion y prosiect.



Diben y swydd:

Darparu cymorth gweinyddol ar gyfer Take Me Too!, sef prosiect i ddatblygu a hyrwyddo system newydd ar gyfer rhannu lifft ledled Sir Benfro.

Prif ddyletswyddau:

1. Gweinyddu ap a gwefan Take Me Too!
2. Cynorthwyo gyda recriwtio gyrwyr a defnyddwyr.
3. Gwirio cofrestrïadau defnyddwyr newydd (gyrwyr, teithwyr a cherbydau).
4. Gweithio ar y cyd â Chydlynnydd y Prosiect i ddarparu gwasanaeth archebu dros y ffôn, galluogi mynediad "all-lein" i brosiect Take Me Too! (h.y. cymryd archebion dros y ffôn, cofnodi'r manylion yn y system ar ran defnyddwyr, a throsglwyddo manylion teithiau cyfatebol posibl i ddefnyddwyr all-lein).

5. Cymryd rhan mewn rota ar alwad er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i ddefnyddwyr ar benwythnosau, os oes angen.
6. Ymdrin ag ymholiadau cyffredinol ynghylch Take Me Too!, gan gynnwys monitro mewnflwch e-bost Take Me Too!, ac ymateb i negeseuon fel y bo'n briodol.
7. Gweithio'n rhagweithiol i nodi a chyfeirio at opsiynau trafndiaeth amgen ar gyfer ceisiadau am deithiau, lle y maent yn bodoli.
8. Cymedroli adborth a sylwadau gan ddefnyddwyr.
9. Cynorthwyo Cydlynedd y Prosiect gyda chyfathrebu rheolaidd â defnyddwyr Take Me Too! er mwyn rhannu gwybodaeth megis newyddion ynghylch y prosiect, a negeseuon hyfforddi a diogelwch, er enghraifft drwy gyfrwng e-newyddlenni neu gyfryngau cymdeithasol.
10. Cynorthwyo gyda chyhoeddusrwydd a hyrwyddo prosiect Take Me Too!
11. Cynorthwyo gyda chasglu gwybodaeth ar gyfer adroddiadau monitro.
12. Darparu cymorth technegol sylfaenol ar gyfer defnyddwyr gwefan ac ap Take Me Too!
13. Casglu adborth am berfformiad y wefan a'r ap, megis namau, problemau ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, a throsglwyddo'r rhain i Gydlynedd y Prosiect ar gyfer gweithredu.
14. Datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau trafndiaeth gymunedol a chyhoeddus eraill sydd ar gael yn Sir Benfro.
15. Gweithio fel rhan o dîm ehangach PACTO i hyrwyddo, datblygu a chefnogi gwasanaethau trafndiaeth gymunedol yn Sir Benfro.
16. Ymgymryd ag unrhyw ddyletsyddau eraill, mewn trafodaeth â'r rheolwr llinell, fel y bo'n ofynnol o dro i dro.

Manyleb yr Unigolyn

Brwdfrydedd am y prosiect a'i amcanion – ymroddiad gwirioneddol i sicrhau bod rhannu lifft yn gweithio yn Sir Penfro.

Profiad o:

- Wasanaeth cwsmeriaid
- Defnyddio systemau TG, gan gynnwys Microsoft Office, Cyfryngau Cymdeithasol
- Diweddarau a chynnal a chadw gwefannau (dymunol ond nid yn hanfodol)
- Cadw cofnodion yn drefnus a systematig
- Gweithio ar eich menter eich hun gydag ymroddiad a brwdfrydedd

Gallu i:

- feithrin perthynas dda â phobl o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol
- gweithio oriau hyblyg gan gynnwys rhan penwythnosau ar alwad (gweithio o gartref)
- cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg (dymunol ond nid yn hanfodol)

Y Broses Ymgeisio

I wneud cais, anfonwch eich CV ynghyd â llythyr esboniadol yn egluro eich diddordeb yn y swydd a'ch addasrwydd ar ei chyfer at debbie@pacto.org.uk erbyn 5 p.m. ar ddydd Llun 13 Medi 2021.

Cynhelir cyfweiliadau ar ddydd Mawrth 21 Medi yn Arberth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Debbie Johnson ar 01437 776550 neu anfonwch neges e-bost at debbie@pacto.org.uk.